# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 15 Tachwedd 2023

**Yn Bresennol (yn bersonol)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd SL Hancock, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Yn Bresennol (o bell)**
Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a’r Cynghorydd A Wilcox.

**Hefyd yn bresennol:**
Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Richard Griffiths (Pennaeth Cyllid), Mike Kent (Swyddog Monitro), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Gary Meopham (Swyddog Ystadau), Emma Thornton (Prif Weithredwr Croeso Sir Benfro), Daisy Hughes (Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr Castell Caeriw), Jason Blewitt (Archwilio Cymru), Jonathan Matther (Archwilio Cymru), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).

[Ymunodd y Cynghorydd M James â’r cyfarfod adeg ystyried y Log Gweithredu, ac ymunodd Mrs S Hoss a Mr GA Jones â’r cyfarfod adeg ystyried adroddiad 38/23, Croeso Sir Benfro.]

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00yb – 11:40yp]

**1. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Morgan, y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer a’r Cynghorydd B Price.

**2. Datgan Buddiannau**
Datgelodd y Cynghorydd D Clements fuddiant personol yn adroddiad 8/23, Croeso Sir Benfro.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 ac ar 6 Hydref 2023 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 ac ar 6 Hydref 2023.

## 4. Log Gweithredu

<u>a) Hyfforddiant ar Seiberddiogelwch (rhif 838)</u>

Tynnodd Aelod sylw at y ffaith, er bod y cam o gylchredeg y ddolen gyswllt i'r hyfforddiant wedi'i gwblhau, nad oedd yr adran cynnydd yn nodi a oedd pob Aelod wedi cwblhau'r hyfforddiant. Cytunwyd i ddiwygio'r cam gweithredu i roi diweddariad yn y cyfarfod nesaf ynghylch nifer yr Aelodau oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant, a bod y ddolen gyswllt i'r hyfforddiant yn cael ei hail-gylchredeg. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Cynghorwyr hynny oedd eisoes wedi cwblhau cwrs Cyngor Sir Penfro (CSP) ar Hyfforddiant Seiberddiogelwch, a gofynnwyd a fyddai'r tystysgrifau hynny yn gwneud y tro yn hytrach na chwblhau cwrs arall tebyg. Cytunodd y Prif Weithredwr i drafod hyn gyda'r tîm TG i sicrhau bod cwrs CSP yn cwmpasu pob elfen angenrheidiol, ac i ddosbarthu diweddariad i'r Aelodau.

<u>b) Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg (rhif 878)</u>

Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y mater hwn a gofyn am i'r camau gweithredu perthnasol barhau ar y log gweithredu i sicrhau y cymerir camau ymlaen. Cadarnhawyd y cysylltwyd â nifer o gyfieithwyr ar y pryd am ddyfynbrisiau, ac ar ôl eu derbyn, gallai'r Swyddogion wedyn symud ymlaen.

<u>c) Cyfarfod i drafod atebolrwydd Aelodau am y Cynlluniau Cyflawni (rhif 901)</u>

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol wedi rhoi diweddariad a chadarnhau ei bod wedi cyfarfod â'r Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth i drafod diwygiadau i'r fframwaith arfaethedig ar fonitro perfformiad. Ychwanegwyd bod y fframwaith diwygiedig wedi'i ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio am eu sylwadau.

<u>d) Adolygiad Mewnol o'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd (rhif 914)</u>

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelodau, rhoddwyd diweddariad ar yr adolygiad Cyflogau a Graddfeydd ac eglurwyd bod yr holl ddogfennau wedi'u trosglwyddo i'r Ymgynghorydd Cyflogwyr Gorllewin Canolbarth Lloegr ac y disgwylir ymatebion erbyn Rhagfyr 2023. Trafodwyd y camau nesaf oedd yn cynnwys cyfathrebu â'r staff ynghylch yr ymatebion, a rhoi cyfle i unrhyw apeliadau (byddai nifer yr apeliadau yn effeithio ar yr amserlen).

<u>e) Hyfforddiant i'r Aelodau ar y Tirweddau (rhif 916)</u>

Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd dyddiad yr Hyfforddiant wedi'i gadarnhau eto. Eglurwyd y byddai'r Cynllun Rheoli newydd yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos, a'r gobaith wedyn oedd y byddai'r hyfforddiant yn cael ei drafod yng nghyd-destun y ddogfen hon er mwyn

sicrhau cysondeb. Cytunwyd y byddai Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod ar y Dirwedd a’r Morwedd yn cael eu hailgylchredeg i'r Aelodau er gwybodaeth.

f) Ymateb i Gyngor Sir Penfro ar Ariannu Toiledau (rhif 917)
Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr ymateb oedd yn cynnwys sylwadau'r Aelodau wedi'i anfon at CSP a bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Dywedwyd mai'r unig awgrym gan yr Awdurdod i beidio â'i dderbyn oedd yn ymwneud â'r Gweithgor Aelodau a Swyddogion arfaethedig - roedd CSP wedi ymateb y byddai'r Gweithgor yn cynnwys Swyddogion yn unig. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu ei bod wedi mynychu'r cyfarfod cyntaf gyda Swyddogion CSP i glustnodi camau gweithredu, a gofynnodd i'r Aelodau sut fyddent yn dymuno cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol. Cytunwyd bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol bob 6 mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa.

**Nodwyd.**

5. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu’r digwyddiadau canlynol:

- Y Gwasanaeth Coffa a gynhaliwyd yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych-y-pysgod, i Luoedd Arfog Gwlad Belg oedd ar leoliad yn Ninbych-y-pysgod a’r cyffiniau yn ystod yr Ail Ryfel Byd.
- Diwrnod Dathlu Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro ym Maenordy Scolton a fynychwyd hefyd gan y Gweinidog Addysg, Jeremy Miles. Dywedodd y Cadeirydd bod y diwrnod yn gyfle gwych i weld y gwaith caled a wneir ac ymroddiad y Cydlynydd Ysgolion Awyr Agored, Bryony Rees.
- Diwrnod Astudio yr Awdurdod yng Nghastell Caeriw lle dysgodd hi am y gwaith parhaus a wneir gan y tîm.
- Digwyddiad ar-lein Partneriaeth Parciau Cenedlaethol y Peak District lle cafodd y cyfle i drafod materion megis Helaethu Partneriaethau Masnachol ac Esblygiad gwaith y Partneriaethau Parciau Cenedlaethol ym maes cyllid preifat i fuddsoddi mewn natur.
- Y Gwobrau Croeso, a gynhelir gan Goleg Sir Benfro. Dywedwyd bod Castell Caeriw wedi derbyn dwy wobr; y Wobr Twristiaeth Gynaliadwy a Gwobr Atyniad Ymwelwyr y Flwyddyn. Ymunodd Daisy Hughes, Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr Castell Caeriw, â’r cyfarfod i roi trosolwg i’r Aelodau o’r meini prawf a ystyriwyd fel rhan o’r gwobrau a’r modd yr oedd Castell Caeriw yn cyflawni pob un. Estynnodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau ar ran yr holl Aelodau i'r tîm am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

- Gwasanaeth Sul y Cofio yn Hwlffordd lle gosododd dorch ar ran yr Awdurdod.

Dywedodd y Cadeirydd bod Castell Henllys wedi ennill Gwobr Sandford ac y byddai cyflwyniad ar hyn yn cael ei wneud yn y cyfarfod nesaf. Yn ogystal, dywedwyd bod y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy wedi'i gydnabod fel 'Cefnogwr y Flwyddyn i Ambiwlans Sant Ioan'.

Hefyd cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i Richard Griffiths (Rheolwr Cyllid) oedd yn gadael yr Awdurdod, am ei waith caled a'i ymrwymiad dros y 18 mlynedd diwethaf. Ar ran yr Aelodau i gyd, dymunodd y Cadeirydd y gorau i Richard am y dyfodol.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 06/09/2023;
(ii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 13/09/2023;
(iii) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 27/09/2023;
(iv) Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 27/09/2023;
(v) Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 22/08/2023 ac ar 12/09/2023.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Archwilio Cyfrifon**

Croesawodd y Cadeirydd Richard Griffiths (Pennaeth Cyllid), Jason Blewitt (Archwilio Cymru) a Jonathan Matther (Archwilio Cymru) a gyflwynodd adroddiad oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r Archwiliad o gyfrifon 2022/23 yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod yr adroddiad eisoes wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn ddiweddar a'i drafod yn fanwl, fodd bynnag gwahoddwyd yr Aelodau nad oedd yn bresennol yn y Pwyllgor hwnnw i wneud unrhyw sylwadau.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio bod yr archwiliad yn farn ddiamod ond bod yr archwiliad wedi clustnodi dau bwynt sylweddol oedd yn gamddatganiadau oedd yn uwch na'r lefel ddibwys ond yn is na'r lefel perthnasedd. Ychwanegwyd bod y pwyntiau hyn wedi'u trafod yn helaeth yn ystod y Pwyllgor Archwilio diweddar a bod adborth yn cael ei rannu ar y ddwy ochr ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion hyn. Amlygwyd hefyd, gan fod yr Awdurdod wedi penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau, bod y llythyr cynrychiolaeth terfynol yn cynnwys

manylion hyn. Er gwaethaf y camddatganiadau, cadarnhawyd bod y Pwyllgor Archwilio yn gadarnhaol ynghylch yr archwiliad o gyfrifon.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd Jason Blewitt y gellid dod o hyd i grynodeb o bob cywiriad a wnaed yn Atodiad 3 i’r adroddiad, a'r unig faterion a adawyd heb eu cywiro oedd y ddau gamddatganiad sylweddol a glustnodwyd. Ychwanegwyd nad oedd y ddau gamddatganiad nas cywirwyd yn cael eu hystyried yn sylweddol ac na fyddent felly yn effeithio ar farn yr Archwiliad.

Cadarnhawyd, o ganlyniad i'r nifer fwy na'r arfer o wallau a nodwyd, bod gwaith ychwanegol wedi'i wneud gan Archwilio Cymru a bod y gwaith hwnnw wedi'i gynnwys yn y ffi flynyddol.

Fel rhan o'r adroddiad, cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 i'r Aelodau hefyd a nodwyd bod y Grŵp Gwelliant Parhaus yn parhau'n weithredol er nad oedd wedi'i ddefnyddio ers degawd a mwy, a gofynnwyd a ddylid ei ddiddymu. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau wedi'u cynnal ar y mater hwn yn y gorffennol a’r casgliad bryd hynny oedd bod y Grŵp Gwelliant Parhaus yn gweithredu fel rhwyd diogelwch i'r Awdurdod ac yn fecanwaith i ymdrin ag unrhyw faterion o bryder na ellid ymdrin â hwy drwy strwythur safonol y Pwyllgorau.

Roedd dadansoddiad o’r materion llywodraethu a glustnodwyd hefyd wedi’i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gofynnodd Aelod a ellid ychwanegu dwy golofn ychwanegol at y tabl i gynnwys dyddiad targed a diweddariad cynnydd ar gyfer pob cam gweithredu. Nodwyd yr awgrym.

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **PENDERFYNWYD**;

a) bod yr Aelodau yn derbyn yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon a;
b) bod Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod 2022/23 yn cael ei gymeradwyo.

**8. Croeso Sir Benfro**

Croesawodd y Cadeirydd Emma Thornton, Prif Weithredwr Croeso Sir Benfro, a roddodd gyflwyniad ar waith Croeso Sir Benfro dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y gwaith a wnaed i gynyddu aelodaeth, y ffigurau perfformiad, y targedau a’r amcanion, y digwyddiadau a gynhaliwyd, partner cysylltiadau cyhoeddus newydd y sefydliad, a phrif bwyntiau eu Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer 2024-

2028. Yn ogystal, cyflwynodd Emma fanylion eu prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin, ystyriaethau Arweinyddiaeth ac Eiriolaeth, gwaith ymchwil perthnasol, a'u blaenoriaethau ar gyfer 2024.

Dywedwyd bod Croeso Sir Benfro, yn dilyn ymgyrch i ennyn mwy o Aelodaeth, wedi llwyddo i ddenu 84 aelod newydd, ac mai'r targed oedd 85. Gofynnodd Aelod faint o Aelodau oedd eu hangen i'r sefydliad fod yn hyfyw, ac ymatebodd Emma bod hyn yn fater cymhleth oherwydd natur newidiol y sefydliad. Eglurwyd y byddai Croeso Sir Benfro yn ei ffurf bresennol fel Sefydliad Twristiaeth Strategol bob amser angen elfen o arian cyhoeddus. Fodd bynnag roedd trafodaethau ar y gweill ynghylch strwythur y sefydliad yn y dyfodol gan fod llawer yn dibynnu ar y cyfleoedd ariannu oedd ar gael. Manteisiodd Emma ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith, pe na bai Croeso Sir Benfro bellach yn derbyn arian cyhoeddus yn y dyfodol, y byddai'r sefydliad yn debygol o ddychwelyd i ganolbwyntio ar gymorth busnes a marchnata ac na fyddai gan y sefydliad y gallu mwyach i gydlynu Cynllun Rheoli Cyrchfan nac arwain ar brosiectau strategol.

Nodwyd bod Croeso Sir Benfro yn cynnig amrywiaeth o Aelodaeth, ac awgrymwyd cynnig Aelodaeth lefel mynediad i'r rhai sy'n dymuno bod yn gysylltiedig â'r sefydliad ond nad oedd angen y pecyn cymorth ychwanegol sydd ar gael. Awgrymwyd hefyd y gellid cynnig Aelodaeth i ddefnyddwyr er mwyn iddynt gael mynediad at ostyngiadau ar draws yr Aelodau busnes. Ymatebodd Emma eu bod yn edrych ar symleiddio'r model Aelodaeth presennol ac felly gellid archwilio'r cyfle i gynnig Aelodaeth lefel mynediad. Nodwyd yr awgrym ynghylch Aelodaeth defnyddiwr ond eglurodd Emma y gallai hyn fod yn heriol oherwydd y gostyngiadau presennol a gynigir gan fusnesau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y gwaith ymchwil a amlygwyd yn y cyflwyniad oedd yn edrych ar niferoedd y twristiaid oedd yn ymweld â'r ardal, ac ychwanegodd un Aelod bod adroddiad 'STEAM' Sir Benfro ar y ffigurau twristiaeth yn 2019 yn nodi bod 9% o'r ymwelwyr o dramor, bod 38% o'r ymwelwyr o Loegr a 53% o'r ymwelwyr o Gymru. Ymatebodd Emma bod gwaith yn cael ei wneud ganddynt i gyflwyno Sir Benfro i'r fasnach deithio ac i annog mwy o ymwelwyr tramor i deithio i Sir Benfro gan eu bod ar y cyfan yn aros yn hirach ac felly'n cael eu hystyried yn dwristiaeth werthfawr.

Roedd y cyflwyniad yn amlinellu blaenoriaethau Croeso Sir Benfro ar gyfer 2024, a rhoddodd Emma sicrwydd i'r Aelodau bod targedau wedi'u pennu ar gyfer y blaenoriaethau hyn ac mai dim ond gwybodaeth lefel uchel oedd wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad. Rhoddodd Emma enghreifftiau i'r Aelodau o'r targedau ar gyfer amcanion y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** nodi cyflwyniad Croeso Sir Benfro.

**9. Bloc y Gogledd, Parc Llanion**

Croesawodd y Cadeirydd Gary Meopham, y Swyddog Ystadau, a gyflwynodd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyo prydles alwedigaethol newydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (GIG) i ymestyn eu deiliadaeth bresennol yn Adeilad Bloc y Gogledd ym Mharc Llanion.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr RH Davies, **PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn cymeradwyo ildio prydles bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar ac ar yr un pryd yn rhoi prydles newydd i'r GIG ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

**10. Aelodaeth Pwyllgorau**

Croesawodd y Cadeirydd Caroline Llewellyn, y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, a gyflwynodd adroddiad oedd yn cadarnhau Aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau. Roedd rhestr o'r Aelodaeth a awgrymir ar gyfer y tri Pwyllgor i'w gweld yn yr adroddiad.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**11. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2024/25**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am farn yr Aelodau ar Adroddiad Blynyddol drafft ymgynghorol y Panel a'r lefel arfaethedig o gyflogau'r Aelodau yn 2024/25. Dywedwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r adroddiad oedd 8 Rhagfyr 2023. Er gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd, pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd gan Aelodau'r Awdurdod unrhyw fewnbwn i'r adroddiad hwn na'r graddfeydd cyflog.

Fel rhan o'r adroddiad, rhoddwyd sylw i gwestiynau'r ymgynghori, a gofynnwyd am farn yr Aelodau yn arbennig ynglŷn â chwestiwn 3 (Teithio Cynaliadwy) a chwestiwn 6 (Cyfuno'r treuliau teithio a chynhaliaeth i'r Aelodau). Dywedodd Aelod o dan gwestiwn 4, y dylid marcio'r statws fel 'Aelod', a nodwyd hyn. Yn ogystal, cytunodd yr Aelodau y gellid cynnwys nifer o enghreifftiau gan gynnwys rhannu ceir, defnyddio cerbydau hybrid a bws mini ar gyfer ymweliadau safle a lleihau costau teithio oherwydd cyfarfodydd hybrid o dan yr adran Teithio Cynaliadwy. Cytunwyd y byddai'n briodol i dreuliau teithio a chynhaliaeth yr Aelodau gael eu cyfuno fel ffigwr cyffredinol gan fod gan yr Awdurdod system adrodd ar wahân oedd yn dangos treuliau pob unigolyn er eglurder a thryloywder.

Cododd Aelod bwynt ynghylch yr elfen dreth sy’n gysylltiedig â threuliau teithio Aelodau Llywodraeth Cymru, a gofynnodd am i hyn gael ei ymgorffori yn yr ymateb i’r ymgynghoriad.

Amlygwyd y gallai Aelodau unigol naill ai dderbyn neu wrthod y codiadau cyflog a gynigir gan y Panel, a gofynnodd Aelod am syniad o beth fyddai effaith hyn ar y gyllideb i gynorthwyo gallu penderfynu ar hyn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Gweithdy ar y Gyllideb wedi'i drefnu i’w gynnal fis Rhagfyr lle gellid cyflwyno’r wybodaeth hon, a’i chyflwyno wedyn gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Chwefror 2024 fel rhan o gymeradwyo'r gyllideb.

Dywedwyd bod newidiadau wedi'u gwneud o ran taliadau i’r Aelodau cyfethol (yn achos yr Awdurdod, roedd hyn yn berthnasol i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau). Mewn ymateb i ymholiad a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod pedwar Aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau sy’n cyfarfod fel arfer unwaith y flwyddyn (yn hytrach nag am gyfnodau byr dros sawl diwrnod) ac felly bod y mater uchod yn llai perthnasol i'r Awdurdod ar hyn o bryd. Fodd bynnag byddai'r hyblygrwydd yno pe bai angen.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr RH Davies, **PENDERFYNWYD** cyflwyno'r ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gan gynnwys y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ac unrhyw sylwadau ychwanegol yr oedd yr Aelodau yn dymuno eu gwneud.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2023 heb eu diwygio. |